22.04.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Portread o Myrddin ap Dafydd sy'n plethu llun a gair

Mae'r bardd a'r Archdderwydd Myrddin ap Dafydd yn eicon mewn sawl maes yma yng Nghymru, ac mae gwaith celf o ddiddordeb mawr iddo ac i'w gweld ochr yn ochr â'i gerddi yn ei lyfrau. Ac er fod Myrddin yn credu bod llygad artist yn medru rhoi haen arall i gerddi ac i eiriau, sut brofiad fydd cael portread ohono'i hun gan artist?

Yn y bedwerydd rhaglen o'r gyfres newydd **Cymry ar Gynfas** ar nos Fercher, 5 Mai, am 9.00, bydd portread o Myrddin yn cael ei greu gan yr artist Anthony Evans, sydd â stiwdio yng Nghaerdydd.

Bob wythnos, mae **Cymry ar Gynfas** yn dod ag eicon ac artist Cymraeg at ei gilydd i greu portread sy'n adlewyrchu personoliaeth y wynebau cyfarwydd â dull unigryw pob artist.

Ac yn ogystal â'r portread sy'n cael ei ddatgelu ar ddiwedd y rhaglen, mae pob rhaglen yn y gyfres yn cynnig portread gonest ag agored o'r eicon a'r artist wrth iddynt sôn am eu profiadau a'u teimladau o beintio a chael eu peintio.

Mae Anthony Evans yn artist tirluniau ac yn arlunydd proffesiynol ers dros 30 mlynedd, ac wedi treulio ugain mlynedd fel athro. Yn ôl Anthony, dyw ei beintiadau o dirluniau ddim yn realistig ond mae nhw wedi'i seilio ar realiti ac mae'n defnyddio printiadau leino yn aml yn ei waith.

Mae'r ddau yma'n hen ffrindiau ac wedi croesi llwybrau ers blynyddoedd. Bu Anthony yn artist preswyl yn nhafarn y Fic, Llithfaen, ac wedi tynnu lluniau ar gyfer llyfrau a chloriau trwy waith Myrddin gyda Gwasg Carreg Gwalch. Mae'r berthynas yma'n bwysig iawn i'r ddau ar gychwyn y broses.

"Pan glywes i mai Anthony oedd yn mynd i fod yn gyfrifol am y gwaith, mi oni'n teimlo'n gyfforddus iawn," meddai Myrddin. "Rydyn ni'n agos iawn o ran meddylfryd gwleidyddol, cymdeithasol, cymunedol dwi'n teimlo ac felly mae'n bleser bob amser ail-gyfarfod a cherdded ymlaen yng nghwmni Anthony."

Mae Myrddin ac Anthony yn cwrdd mewn lleoliad sy'n arbennig iawn i Myrddin, sef Eglwys Sant Beuno, Carnguwch, ger yr Afon Erch. Mae'r lle yn cwmpasu popeth sy'n bwysig i Myrddin – y tawelwch, y llwybrau, y cerddi sydd i'w gweld ar y cerrig beddau a'r teimlad ysbrydol cryf a'r hanes sydd yno.

Roedd treulio amser gyda Myrddin a dod i ddeall yr hyn sy'n ei wneud o'n pwy ydi o yn holl bwysig i Anthony:

"Beth oedd yn bwysig oedd fy mod i'n treulio amser gyda Myrddin a jest y ddau ohonom ni'n siarad. Y diddordeb mwyaf gan Myrddin yw sut mae bardd yn mynd ati i greu neu i gyfansoddi. Roedd o'n cyfeirio at 'rhoi garreg ar garreg', fel rhoi gair tuag at air. Roedd o'n debyg iawn i'r broses o wneud darlun – ti'n rhoi un peth yn erbyn y peth nesaf, ti'n adeiladu'r peth yn raddol."

Ac mae Myrddin hefyd yn gweld y tebygrwydd rhwng artist a bardd, a'r cyswllt hynny rhwng geiriau a lluniau:

"Mae'n ddifyr beth fydd dychymyg Anthony wedi'i weld. Dwi innau yn edrych ar bapur gwyn weithiau, fyddai'n gweld geiriau. Mae o'n edrych ar wal wen ac yn gweld lluniau."

Roedd gwneud gwaith sy'n cynnwys printio yn bwysig i Anthony, oherwydd gwaith Myrddin gyda Gwasg Carreg Gwalch. Ond nid yw'n broses sy'n dod heb risg; "Hyd yn oed pan ti wedi gwneud popeth, dwyt ti ddim yn gwybod sut mae'n mynd i droi allan nes bo ti'n codi'r papur lan o'r leino gyda'r inc arno fe," meddai Anthony.

Mae'r datgelu'n digwydd ddeg wythnos yn ddiweddarach yng Nghwrw Llŷn yn Nefyn. Ydi Anthony wedi llwyddo i gwmpasu holl elfennau bywyd Myrddin mewn un darlun, a hynny trwy ddefnyddio dull arbennig o greu nad ydi o wedi'i ddefnyddio ers dros 30 mlynedd? Peidiwch â methu'r bennod nesaf yng nghyfres newydd o **Cymry ar Gynfas** ar nos Fercher, 5 Mai am 9.00 am yr atebion ac i weld y portread gorffenedig.

Yn ystod y gyfres bydd y gantores Kizzy Crawford yn cael ei pheintio gan Seren Morgan Jones a'r canwr a'r ymgyrchydd dylanwadol Dafydd Iwan gan Wil Rowlands. Ac mae'r penodau eraill sef Beti George a Catrin Williams, Meinir Mathias a Iolo Williams, ac Osian Huw Williams a Christine Mills ar gael ar alw ar S4C Clic.

Cymry ar Gynfas
Nos Fercher, 5 Mai, 9.00.
Isdeitlau Saesneg
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Wildflame ar gyfer S4C

22.04.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

A portrait of Myrddin ap Dafydd that intertwines image and word

The poet and Archdruid Myrddin ap Dafydd is an icon in many fields here in Wales, and art is also of great interest to him and is seen alongside his poems in his books. And while Myrddin believes that an artist can add another layer to poems and words, what will it be like to have a portrait of himself made by an artist?

In the fourth programme of the new series of **Cymry ar Gynfas** (The Welsh on Canvas) on Wednesday, 5 May at 9.00pm, a portrait of Myrddin will be painted by the artist Anthony Evans, who has a studio in Cardiff.

Every week, **Cymry ar Gynfas** brings together a Welsh icon and artist to create a portrait which reflects the personality of the well-known face and the unique style of each artist.

And as well as revealing the finished portrait at the end of the episode, each programme offers an open and honest portrait of the icon and the artist as they talk about their experiences of painting and being painted.

Anthony Evans has been a landscape and professional artist for more than 30 years, having spent 20 years as a teacher. According to Anthony, although his paintings of landscapes are not realistic, they are based on reality, and he often uses lino prints in his work.

These two are old friends and have crossed paths for years. Anthony was a resident artist at the Fic pub in Llithfaen and took photographs for books and covers for Myrddin's work with Gwasg Carreg Gwalch. This relationship is very important to both at the start of the process.

"When I heard that Anthony was going to be in charge of the work, I felt very comfortable," said Myrddin. "I feel that we're very close in terms of political, social and community mindset and so it's always a pleasure to meet again and walk with Anthony."

Myrddin and Anthony meet at a very special location to Myrddin, St Beuno's Church, Carnguwch, by the River Erch. The place encompasses everything that is important to him - the tranquillity, the paths, the poems on the gravestones and the strong spiritual feeling and history that can be found there.

Spending time with Myrddin and getting to know what makes him who he is was vital to Anthony:

"What was important was that I spent time with Myrddin with just the two of us talking. Myrddin's greatest interest is how a poet goes about creating or composing. He was referring to 'putting stone on stone', like putting word to word. It was very similar to the drawing process - you put one thing against the next and you build it up gradually."

Myrddin also sees the similarities between artist and poet, and the link between words and pictures:

"It's interesting what Anthony's imagination will have seen. I sometimes look at a piece of white paper and I see words. He looks at a white wall and sees pictures."

Doing print work was important to Anthony, because of Myrddin's work with Gwasg Carreg Gwalch. But it's not a process that comes without risks; "Even when you've done everything, you don't know how it's going to turn out until you pick up the paper from the lino with the ink on it," said Anthony.

The unveiling takes place 10 weeks later at Cwrw Llŷn in Nefyn. Has Anthony managed to cover all the elements of Myrddin's life in one picture and that by using a unique method of art that he hasn't used for more than 30 years? Don't miss the next episode of **Cymry ar Gynfas** on Wednesday, 5 May at 9.00 for the answers and to see the finished portrait.

During this series singer Kizzy Crawford is painted by Seren Morgan Jones and influential singer and activist Dafydd Iwan by Wil Rowlands. And the other episodes with Beti George and Catrin Williams, Meinir Mathias and Iolo Williams, and Osian Huw Williams and Christine Mills is available on demand on S4C Clic.

Cymry ar Gynfas
Wednesday, 5 May, 9.00
English subtitles available
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
A Wildflame production for S4C